TAFLEN GWYBODAETH AM Y CWRS

# City & Guilds  Diploma mewn Gwasanaeth Cwsmeriaid Lefel 2



### Yn gryno

Amcan y cymhwyster yw cefnogi rolau gwasanaeth cwsmeriaid yn y gweithle, gan roi cyfle i'r dysgwyr ddysgu a darparu tystiolaeth o'u eu gwybodaeth a'u sgiliau.

### Dyma'r cwrs i chi os...

Mae'r cymhwyster yn addas ar gyfer unrhywun sy'n ymwneud ag unrhyw rôl sy'n canolbwyntio ar wasanaeth cwsmeriaid mewn unrhyw ddiwydiant. Ei nod yw datblygu set hynod drosglwyddadwy o wybodaeth, dealltwriaethasgiliau i'rdysgwyr ardraws ystod o arferion a thasgau gwasanaethau cwsmeriaid, y gellireu cymhwyso i bob diwydiant.

### Beth fyddaf yn ei wneud?

Mae'r cymhwyster hwn yn cynnwys unedau cymhwysedd a gwybodaeth. Mae'n cynnwys y sgiliau a'r wybodaeth sydd eu hangen ar gyfer galwedigaethau gweinyddu busnes gan gynnwys y gallu i drefnu gwaith a nodi ac atal problemau.

# TAFLEN GWYBODAETH AM Y CWRS

Rhaid i'r dysgwr gyflwyno tystiolaeth (wedi'i chofnodi mewn portffolio) sy'n dangos yn glir ei fod wedi bodloni meini prawf asesu a deilliannau dysgu'r unedau a ddewiswyd. Rhaid i'r dysgwr gyflawni'r unedau gorfodol a dewisol sy'n berthnasol i'w llwybr a'u rôl alwedigaethol.

**Gwybodaeth Ychwanegol**

Cyflwynir y cymhwyster hwn yn y gweithle ac nid ar gampws i unigolion ei fynychu. Cytunir ar ddyddiadau darparu ymlaen llaw gyda chi a'ch cyflogwr.

Mae'r cymhwyster hwn yn cynnwys tua 12 uned yn dibynnu ar opsiynau a ddewiswyd. Gall gymryd rhwng 12 a 14 mis i'w gwblhau. Gall dysgwyr ei gwblhau yn ôl eu pwysau eu hunain ond bydd ein tîm o aseswyr yn rhoi cynllun cychwynnol ar waith i gwblhau uned bob mis ac mae'n bosib ei gwblhau'n gynt. Bydd dyfynbris ffurfiol yn cael ei baratoi unwaith y byddwn yn deall eich anghenion hyfforddi, ond fel canllaw, rydym yn codi £750 y pen ynghyd â ffioedd cofrestru ychwanegol ar gyfer cyrff dyfarnu (tua £200).